



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

Cynigion ar gyfer gweithredu a gorfodi gwaharddiad  
yng Nghymru ar weithgynhyrchu a gwerthu  
cynhyrchion cosmetig a gofal personol sy'n cynnwys  
microbelenni plastig

Dyddiad cyhoeddi: 16 Hydref 2017  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn: 08 Ionawr 2018

<b>Trosolwg</b>	<p>Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn eich barn am ein cynigion ynghylch sut i weithredu a gorfodi gwaharddiad yng Nghymru ar weithgynhyrchu a gwerthu cynhyrchion cosmetig a gofal personol sy'n cynnwys microbelenni plastig.</p>
<b>Sut i ymateb</b>	<p>Llenwch yr holiadur ar ddiwedd y ddogfen. Gellir cyflwyno ymatebion drwy e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad isod erbyn 31 Rhagfyr 2017.</p>
<b>Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig</b>	<p><b>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</b></p> <p>Gweler y ddolen i ymgynghoriad y DU a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2017 ac i Ymateb y Llywodraeth: <a href="#">Gwahardd microbelenni – Ymgynghoriad y DU</a></p>
<b>Manylion cyswllt</b>	<p>Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru Ystafell 3, Cwrt Cedrwydden Parc Busnes Haven's Head Aberdaugleddau Sir Benfro SA73 3LS</p> <p>E-bost: <a href="mailto:Marine@gov.wales">Marine@gov.wales</a></p>
<b>Diogelu data</b>	<p>Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a rowch inni</p> <p>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn</p>

briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n fater pwysig inni ei gadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet

Rwy'n falch o lansio'r ymgynghoriad hwn i ofyn eich barn am ein cynigion ar gyfer gweithredu a gorfodi gwaharddiad yng Nghymru ar weithgynhyrchu a gwerthu cynhyrchion cosmetig a gofal personol sy'n cynnwys microbelenni plastig.

Mae pedair gweinyddiaeth y DU wedi cytuno i gyflwyno'r gwaharddiad hwn yn dilyn y gefnogaeth aruthrol a ddangoswyd yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ledled y DU. Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 28 Chwefror eleni. Rwyf eisoes wedi penderfynu y dylid cyflwyno gwaharddiad o'r fath yng Nghymru a diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn eich barn am sut y dylid ei weithredu a'i orfodi.

Mae sbwriel yn un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu ein moroedd a'n cefnforoedd. Rwy'n falch ein bod ninnau, ynghyd â gweddill y DU, yn cymryd camau cadarnhaol i leihau'r deunydd plastig sy'n mynd i'n moroedd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn mynd i'r afael â sbwriel môr drwy ei strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Mae Cymru ar flaen y gad yn y DU o ran ailgylchu, ac yn ôl astudiaeth annibynnol, hi yw'r ail wlad orau yn Ewrop a'r drydedd wlad orau yn y byd am ei gwaith ailgylchu. Rydym yn ailgylchu 75% o boteli plastig, o gymharu â'r DU yn gyfan gwbl sy'n ailgylchu 57%.

Rwyf hefyd wedi comisiynu astudiaeth i edrych ar ffyrdd eraill y gellir eu defnyddio i ailgylchu mwy a lleihau sbwriel. Yn ddiweddar, ffurfiwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Sbwriel Môr lle y mae rhanddeiliaid yn gweithio mewn partneriaeth ar hyn o bryd i ddatblygu cynllun gweithredu ar sbwriel môr.

Rwy'n ymrwymedig i weithredu dull integredig o lunio polisiau sy'n darparu fframwaith ar gyfer arfordir a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a bioamrywiol. Bydd hyn yn ein helpu i wireddu ein huchelgais i wella iechyd a llesiant pobl Cymru fel y nodir yn 'Ffyniant i Bawb', gan sicrhau bod ein moroedd yn cael eu defnyddio'n fwy cynaliadwy ar yr un pryd.

Mae cymryd camau cadarnhaol i leihau nifer y microbelenni sy'n cael eu gollwng i'r môr yn ategu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Mae'r ddogfen hon yn pennu'r fframwaith ar gyfer sut y caiff ein moroedd eu rheoli'n gynaliadwy ac mae'n cyfrannu at gyflawni ein nod o sicrhau bod gan ein moroedd Statws Amgylcheddol Da. Credaf y bydd y gwaharddiad hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o warchod yr amgylchedd morol, ac mae ein bwriad i'w gyflwyno yn 2018 yn amserol o ystyried y bydd hi'n Flwyddyn Môr Cymru y flwyddyn nesaf.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn eich barn ynghylch wyth gwestiwn allweddol. Rwy'n gwerthfawrogi eich barn yn fawr, ac yn edrych ymlaen at glywed eich sylwadau ar y mater pwysig hwn.

**Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

---

## Tudalen Gynnwys

Beth yw testun yr ymgynghoriad? .....	6
Ble rydym ni arni nawr? .....	6
Beth mae'r gwaharddiad hwn yn ei olygu i'r sector busnes? .....	7
Paratoi i gydymffurfio.....	7
Gorfodi.....	8
Pam mae angen gorfodi? .....	8
Pwy fydd yn rheoleiddio? .....	8
Y drefn orfodi a phwerau'r rheoleiddiwr .....	9
Amrywiaeth o ddulliau gorfodi .....	9
Apelau.....	15
Camau nesaf .....	16
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad .....	17

---

## Beth yw testun yr ymgynghoriad?

Mae microbelenni (gronynnau bach plastig) i'w gweld yn gyffredin mewn llawer o gynhyrchion cosmetig a gofal personol megis sgrybiau wyneb a phast dannedd, a gellir eu defnyddio mewn cynhyrchion eraill megis cynhyrchion glanhau dwylo. Cânt eu golchi i lawr y draen ond maent yn rhy fach i gael eu hidlo allan yn llwyr mewn systemau trin carthion ac felly, caiff cyfran ei golchi allan i'r amgylchedd morol.

Ym mis Awst 2017, penderfynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig wahardd cynhyrchion cosmetig a gofal personol sy'n cynnwys microbelenni plastig yng Nghymru. Gwnaed y penderfyniad hwn yn dilyn ymgynghoriad ar y cyd gan bob un o bedair gweinyddiaeth y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2017. Nododd yr ymgynghoriad hwnnw hyd a lled y gwaharddiad ar ficrobelenni plastig a chafwyd ymateb da iddo ar y cyfan. Cliciwch [yma](#) i ddarllen crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae pob un o bedair gweinyddiaeth y DU wedi cytuno bellach i wahardd pob cynnyrch cosmetig a gofal personol i'w rinsio sy'n cynnwys microbelenni plastig erbyn 2018.

Yn sgil datganoli, mae gan bob gweinyddiaeth bwerau a phrosesau deddfwriaethol gwahanol ynghyd â chyfle i sicrhau bod y gwaith o weithredu a gorfodi'r gwaharddiad yn rhan annatod o arferion presennol sy'n cyd-fynd â threfniadau sydd wedi ennill eu plwyf. Yn hynny o beth, rydym yn ymgynghori ar sut y bydd y gwaharddiad hwn yn cael ei weithredu yng Nghymru.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn eich barn am ein cynigion ar gyfer gweithredu a gorfodi'r gwaharddiad hwn.

## Ble rydym ni arni nawr?

Rydym wedi bod yn datblygu cynigion ynghylch sut y byddwn yn gweithredu'r gwaharddiad yng Nghymru, a bydd angen inni gyflwyno is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru i'w ddwyn i effaith. Yn ddarostyngedig i broses graffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r broses deddfwriaethol ehangach, ein huchelgais yw cyflwyno'r gwaharddiad cyn gynted â phosibl yn 2018. Bwriadwn wahardd gweithgynhyrchu a gwerthu ar yr un dyddiad, sef 30 Mehefin 2018.

Roedd Asesiad Effaith<sup>1</sup> yn ategu'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ledled y DU. Rydym wedi ystyried ymhellach yr effeithiau posibl ar fusnesau yng Nghymru, ac awgryma ein tystiolaeth na fydd y gwaharddiad yn effeithio ar unrhyw weithgynhyrchwyr yng Nghymru. Deallwn fod y rhan fwyaf o weithgynhyrchwyr Cymru yn dueddol o ganolbwyntio ar gynhyrchion bwŷc, crefftrol ac organig ac felly, nid ydynt yn defnyddio microbelenni yn eu cynhyrchion.

---

<sup>1</sup> Mae Asesiad Effaith ar yr effeithiau y rhagwelir y bydd y gwaharddiad yn eu cael ar fusnesau i'w weld yn [www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra).

Gan nad oes gweithgynhyrchwyr o'r fath yng Nghymru, cynigiwn wahardd gweithgynhyrchu a gwerthu ar yr un pryd.

Caiff y gwaharddiad hwn ei gyflwyno ledled y DU ac rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraethau eraill y DU i sicrhau cysondeb wrth weithredu lle bo'n bosibl.

Nod pob un o bedair gweinyddiaeth y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) yw gwahardd microbelenni erbyn diwedd mis Mehefin 2018. Er bod Lloegr yn bwriadu gwahardd gweithgynhyrchu ym mis Ionawr 2018, a gwahardd gwerthu ar 30 Mehefin; bwriada Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wahardd gweithgynhyrchu a gwerthu ar yr un pryd ar 30 Mehefin. Gallai'r amserau hyn newid yn sgil canlyniadau'r ymgynghoriadau, prosesau hysbysu'r EU a gweithdrefnau deddfwriaethol.

**Cwestiwn 1. A ydych chi'n cytuno â'n dealltwriaeth o'r effeithiau posibl ar fusnesau yng Nghymru? Os nad ydych, pam?**

## **Beth mae'r gwaharddiad hwn yn ei olygu i'r sector busnes?**

Pan fydd y gwaharddiad yn dod i rym, bydd yn drosedd yng Nghymru i weithgynhyrchu, gwerthu neu gynnig cyflenwi unrhyw gynhyrchion cosmetig neu ofal personol i'w rinsio sy'n cynnwys microbelenni plastig. Mae cynhyrchion yn cynnwys, ymhlith eraill, sgrybiau sgwrio, cynhyrchion diwydiannol i lanhau dwylo, jeliâu cawod a phast dannedd.

Bydd y gwaharddiad yn gymwys i unrhyw weithgynhyrchwr, manwerthwr, cyfanwerthwr neu ddosbarthwr sy'n cyflenwi cynhyrchion cosmetig a gofal personol i'w rinsio sy'n cynnwys microbelenni plastig. Bydd y gwaharddiad hwn yn gymwys i unrhyw gynnyrch o'r fath yng Nghymru, pa un ai a gafodd ei weithgynhyrchu yn y DU neu ei fewnforio o'r tu allan i'r DU.

Ein bwriad yw cynnwys amddiffyniad diwydrwydd dyladwy os bydd pob cam rhesymol wedi'i gymryd i atal y drosedd rhag cael ei chyflawni.

## **Paratoi i gydymffurfio**

Mae'r diwydiant cosmetig eisoes wedi cymryd camau gwirfoddol eang i gael gwared ar microbelenni yn raddol yn y DU. Fodd bynnag, deallwn y gallai fod cyfanwerthwyr a manwerthwyr sy'n cyflenwi a storio cynhyrchion o'r fath. Cyngorwn weithgynhyrchwyr a manwerthwyr i baratoi i gydymffurfio â'r gwaharddiad yn awr ac i gynllunio ymlaen llaw i storio cyn lleied o gynhyrchion â phosibl sy'n cynnwys microbelenni plastig.

Mae gwahardd microbelenni plastig wedi cael cryn dipyn o sylw ar y cyfryngau, ac rydym yn hyderus y bydd manwerthwyr yn ymwybodol o'r gwaharddiad a fydd yn dod i rym. Fodd bynnag, hoffwn sicrhau bod y bobl yr effeithir arnynt yn ymwybodol o'r gwaharddiad ac yn ei ddeall. Bwriadwn gynnal rhaglen addysg ac ymwybyddiaeth cyn bod y gwaharddiad yn dod i rym.

## Gorfodi

### Pam mae angen gorfodi?

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod llawer o fusnesau yn cydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol, a bod y mwyafrif yn gwneud pob ymdrech i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r bobl hynny sy'n diystyru'r gyfraith yn peryglu'r amgylchedd neu'n achosi niwed iddo, yn difetha ein hansawdd bywyd, ac yn tanseilio busnesau sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Gall y bobl hynny sy'n dewis peidio â chydymffurfio hefyd ennill mantais annheg ar y rheini sy'n cydymffurfio â'r gyfraith.

Prif nodau ein cynigion gorfodi yw sicrhau bod pobl yn cydymffurfio â'r gyfraith ac atal niwed i'r amgylchedd morol.

Pan fydd y gwaharddiad yn dod i rym, bydd yn drosedd yng Nghymru i weithgynhyrchu, gwerthu neu gynnig cyflenwi unrhyw gynhyrchion cosmetig neu ofal personol i'w rinsio sy'n cynnwys microbelenni plastig.

Ochr yn ochr â chanllawiau a gwybodaeth ar gyfer y rheini yr effeithir arnynt, caiff trefn orfodi ei chyflwyno.

### Pwy fydd yn rheoleiddio?

Mae gan awdurdodau lleol amrywiaeth o swyddogaethau rheoleiddio, gan gynnwys y rheini a gyflawnir o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol a deddfwriaeth defnyddwyr.

Mae Gwasanaethau Safonau Masnach o fewn awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi amrywiaeth eang o gyfreithiau sy'n rheoli'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a brynir gan ddefnyddwyr. Mae swyddogion Safonau Masnach yn rhoi cyngor i fusnesau, yn ymchwilio i gwynion, yn cynnal arolygiadau, ac yn profi a samplu cynhyrchion a gwasanaethau.

Mae'r Adran Safonau Masnach ar hyn o bryd yn cael gwybod am achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth drwy Wasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth. Yna cymera camau gorfodi lle bo'n briodol. Mae'r broses hon eisoes yn ei lle a phenderfynwyd y byddai unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â'r gwaharddiad ar ficrobelenni plastig yn dod i law drwy ddefnyddio'r un broses.

O ystyried y prosesau presennol sydd yn eu lle a'i harbenigedd o ran gweithredu trefniadau gorfodi tebyg, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r Adran Safonau Masnach sydd yn y sefyllfa orau i orfodi'r gwaharddiad hwn ar ficrobelenni plastig.

**Cwestiwn 2. A ydych yn cytuno mai'r Adran Safonau Masnach yw'r corff mwyaf priodol i orfodi'r gwaharddiad ar ficrobelenni plastig? Os nad ydych, pam?**



## **Y drefn orfodi a phwerau'r rheoleiddiwr**

Cynigiwn gyflwyno trefn orfodi sy'n cynnwys sancsiynau sifil (anhroseddol). Bydd sancsiynau sifil yn caniatáu i'r rheoleiddiwr wahaniaethu rhwng y bobl sy'n gwneud pob ymdrech i gydymffurfio â'r gyfraith a'r bobl hynny sy'n ei diystyru. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn galluogi'r rheoleiddiwr i gyflwyno amrywiaeth o sancsiynau gan ddibynnu ar amgylchiadau'r drosedd.

Bydd y sancsiynau yn cynnwys cyfuniad o ymgymeriadau, hysbysiadau gorfodi a chosbau ariannol a hynny heb orfod mynd i'r llys.

Credwn fod ein trefn orfodi arfaethedig yn hyblyg ac yn gymesur, ac y bydd yn sicrhau bod yr amgylchedd ac iechyd pobl yn cael eu gwarchod wrth fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth.

Byddai ein cynigion yn rhoi'r amrywiaeth a ganlyn o ddulliau gweithredu i'r rheoleiddiwr i orfodi'r gwaharddiad:

## **Pwerau Mynediad**

Wrth gyflawni ei rôl orfodi, mae'n bosibl y bydd angen i'r rheoleiddiwr gael mynediad i safleoedd. Cynigir y bydd y pwerau mynediad yn cynnwys, ymhlith eraill:

- mynediad i safleoedd ar unrhyw adeg resymol gydag offer a deunyddiau neu hebddynt;
- mynediad i safleoedd i gynnal ymchwiliadau ac archwiliadau yn ôl yr angen. Gallai hyn gynnwys cymryd mesuriadau a ffotograffau;
- gofyniad i'r person dan sylw gyflwyno dogfennau neu gofnodion cyfrifiadurol i gynorthwyo gyda'r archwiliad;
- yr hawl i gymryd samplau i'w dadansoddi neu eu profi. Gellid defnyddio'r samplau hyn fel tystiolaeth mewn unrhyw achos troseddol;
- bod yn rhaid cadw'r safle yn union fel y mae a chadw unrhyw beth ynddo yn ei le.

## **Amrywiaeth o ddulliau gorfodi**

Mae'r dulliau gorfodi ar gael o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (RES) sy'n sicrhau bod y drefn orfodi yn un sydd wedi'i phrofi'n dda ac yn un resymol.

Tabl 1 – Yr amrywiaeth o ddulliau gorfodi

**Ymgymeriadau gorfodi:** Os yw rheoleiddiwr yn drwgdybio bod person wedi cyflawni trosedd, mae'r ymgymeriadau hyn yn ei alluogi i roi ymgymeriad (addewid) i'r rheoleiddiwr y bydd yn cymryd un neu fwy o'r camau i gywiro'r sefyllfa a nodir yn yr ymgymeriad.

**Ymgymeriad trydydd parti:** Mae'r rhain yn galluogi person sydd wedi cael hysbysiad o fwriad gan y rheoleiddiwr i osod cosb ariannol amrywiadwy, er enghraifft, i ymrwymo i gymryd camau a fydd o fudd i'r trydydd parti y mae'r drosedd o beidio â chydymffurfio yn effeithio arno.

**Cosb ariannol amrywiadwy:** Gofyniad i dalu cosb ariannol a fydd yn swm a bennir gan y rheoleiddiwr sy'n adlewyrchu amgylchiadau'r drosedd.

**Hysbysiad cydymffurfio:** Gofyniad i gymryd camau gweithredu penodol o fewn y cyfnod a nodir i sicrhau nad yw'r drosedd yn parhau nac yn ail-ddigwydd.

**Hysbysiad o fwriad:** Hysbysiad sy'n nodi pa gamau gweithredu a gynnigir. Fe'i cyflwynir cyn cosb ariannol amrywiadwy neu hysbysiad cydymffurfio.

**Hysbysiad terfynol:** Hysbysiad terfynol o ba gamau gweithredu a gynnigir.

**Cosbau am beidio â chydymffurfio:** Bydd methu â chydymffurfio ag ymgymeriad neu hysbysiad cydymffurfio yn arwain at gosb am beidio â chydymffurfio.

**Hysbysiad stop:** Gofyniad i berson beidio â pharhau i ymgymryd â gweithgaredd a ddisgrifir yn yr hysbysiad hyd nes ei fod wedi cymryd camau i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gyfraith.

**Achos troseddol:** Gallai peidio â chydymffurfio â hysbysiad terfynol neu hysbysiad stop arwain at achos llys.

**Hysbysiad adennill costau gorfodi:** Hysbysiad sy'n nodi pa gostau y mae'r rheoleiddiwr am eu hadennill ar gyfer archwiliadau a gwaith gweinyddol.

## Ymgymeriadau gorfodi

Pan fo trosedd wedi ei chyflawni, gall y troseddwr ddewis unioni'r sefyllfa, gan wybod y bydd methu â gwneud hynny yn arwain at gael ei erlyn. Rhaid i'r rheoleiddiwr dderbyn yr addewid er mwyn iddo gael effaith gyfreithiol. Gelwir y math hwn o addewid yn ymgymeriad.

Yn achos ymgymeriad gorfodi, gall y troseddwr gytuno i gymryd camau gweithredu i sicrhau nad yw'r drosedd yn parhau nac yn ail-ddigwydd. Gallai hyn gynnwys talu swm o arian neu gymryd camau a fydd yn sicrhau budd i'r amgylchedd i unioni'r niwed a achoswyd gan y drosedd.

Pan fo hysbysiad o fwriad wedi ei gyflwyno, caiff person gynnig cymryd camau neu dalu swm o arian ar ffurf digollediad er budd trydydd parti yr oedd y drosedd wedi effeithio arno.

Pan fo'r rheoleiddiwr yn fodlon bod y person wedi cydymffurfio â'r ymgymeriad gorfodi, bydd yn cyhoeddi tystysgrif gwblhau.

Os na chydymffurfir ag ymgymeriad, caiff y rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad cosb ariannol amrywiadwy, hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad cosb am beidio â chydymffurfio, hysbysiad stop neu ddwyn achos yn ei erbyn yn y llys.

## Cosbau Ariannol Amrywiadwy

Pan fo trosedd wedi'i chyflawni, bydd y rheoleiddiwr yn gallu gosod cosb ariannol. Mae gosod cosb yn dileu'r budd o dorri'r rheolau ac yn atal rhywun rhag peidio â chydymffurfio â nhw yn y dyfodol. Dim ond un gosb y gellir ei gosod ar gyfer yr un mater ar yr un pryd. Y rheoleiddiwr fydd yn pennu swm y gosb ariannol. Gallai bennu hyd at uchafswm o £5000 am beidio â chydymffurfio â'r gwaharddiad, ac yn dibynnu ar natur y drosedd, gallai fod yn £20,000 o gosb am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol, neu am rwystro swyddog gorfodi rhag gwneud ei waith neu fethu â'i gynorthwyo.

Tabl 2 – uchafswm cosbau ariannol amrywiadwy

Y mater dan sylw	Uchafswm y Gosb
Gweithgynhyrchu, cyflenwi neu werthu cynnyrch cosmetig neu ofal personol i'w rinsio sy'n cynnwys microbelenni plastig.	£5,000
Methu â darparu cofnodion sy'n ymwneud â gweithgynhyrchu, cyflenwi neu werthu cynnyrch cosmetig neu ofal personol i'w rinsio sy'n cynnwys microbelenni plastig.	£5,000
Rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i swyddog gorfodi.	£20,000
Rhwystro swyddog gorfodi rhag gwneud ei waith neu fethu â'i gynorthwyo.	£20,000

Nod y gwaharddiad ar ficrobelenni plastig yw gwarchod yr amgylchedd morol yn y pen draw. Ystyriwn fod symiau'r cosbau ariannol sydd wedi'u pennu yn briodol ac

yn ddigonol i atal rhywun rhag gweithgynhyrchu neu werthu cynhyrchion sy'n cynnwys microbelenni plastig.

Y rheoleiddiwr fydd yn pennu swm y gosb ariannol amrywiadwy.

Er mwyn pennu swm sy'n gymesur, bydd y rheoleiddiwr yn ystyried:

- maint y busnes;
- natur y drosedd;
- yr effaith ar yr amgylchedd;
- i ba raddau y bydd y person yn elwa'n ariannol ar y drosedd; ac
- unrhyw faterion perthnasol eraill.

Cyn gosod cosb ariannol amrywiadwy, caiff y rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu gwybodaeth i ddarganfod i ba raddau y mae'n elwa'n ariannol ar y drosedd.

Caiff canllawiau eu cyhoeddi maes o law a bydd yn rhaid i reoleiddwyr eu hystyried wrth bennu swm y gosb, gan sicrhau nad yw'n uwch nag uchafswm y gosb a ganiateir. Ar ben hynny, cynigiwn na fydd cosb ariannol amrywiadwy yn uwch na 10% o drosiant blynyddol y busnes, er mwyn osgoi effeithiau anghymesur.

Mae uchafswm y cosbau yn cyd-fynd â'r rheini a bennwyd ar gyfer codi tâl ar fagiau siopa un tro yng Nghymru a gyflwynwyd ym mis hydref 2011. Ystyriwn ei bod yn briodol gosod yr un symiau oherwydd bydd y gwaharddiad ar microbelenni plastig yn gymwys i amrywiaeth debyg o fusnesau sy'n amrywio o ran maint. Ystyrir bod y symiau wedi'u gosod yn ddigon uchel i atal busnesau bach a chanolig rhag peidio â chydymffurfio â'r gwaharddiad. Ystyrir hefyd y bydd y cyfuniad o gosb ariannol a hysbysiadau gorfodi cyhoeddedig yn atal busnesau mawr rhag gwneud yr un peth oherwydd gellid effeithio ar eu henw da. Bydd gosod cosbau amrywiadwy yn hytrach na chosbau penodedig yn sicrhau y caiff busnesau llai eu diogelu a bod y cosbau yn gymesur.

Rydym yn awyddus i glywed eich barn ynghylch a yw symiau'r cosbau ariannol yn briodol, yng nghyd-destun y dulliau gweithredu ehangach sydd ar gael.

### **Hysbysiad cydymffurfio**

Pan fo trosedd yn cael ei chyflawni neu wedi'i chyflawni, byddem yn annog busnesau, yn gyntaf oll, i drafod â'r rheoleiddiwr ynghylch sut y gallant gywiro'r broblem a chydymffurfio â'r rheolau. Os nad yw'r trafodaethau hyn yn datrys y broblem, caiff y rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad cydymffurfio.

Diben hysbysiad cydymffurfio yw cywiro problem benodol ac mae'n dweud wrth fusnes y camau y mae'n rhaid iddo eu cymryd er mwyn unioni'r sefyllfa. Gallai nodi erbyn pryd y mae'n rhaid iddo gymryd y camau hynny er mwyn cydymffurfio â'r rheolau a sicrhau nad yw'r drosedd yn parhau nac yn ail-ddigwydd.

Pan gaiff hysbysiad cydymffurfio ei gyhoeddi, mae'n bosibl y caiff cosb ariannol amrywiadwy ei gosod ar yr un pryd hefyd, os yw'r rheoleiddiwr yn ei hystyried yn angenrheidiol.

## **Hysbysiad o fwriad**

Cyn cyflwyno hysbysiad cydymffurfio neu gosb ariannol amrywiadwy, bydd y rheoleiddiwr yn cyflwyno hysbysiad a fydd yn nodi pa gamau gweithredu y mae'n eu cynnig – sef hysbysiad o fwriad.

Rhaid i hysbysiad o fwriad gynnwys sail dros gyflwyno hysbysiad cydymffurfio neu gosb ariannol amrywiadwy, gofynion yr hysbysiad cydymffurfio ac os yn berthnasol, y gosb i'w thalu.

Bydd yr hysbysiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr hawl i gyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau i'r rheoleiddiwr o fewn 28 o ddiwrnodau.

## **Hysbysiad terfynol**

Ar ôl y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a ganiateir ar gyfer cyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau mewn perthynas â'r hysbysiad o fwriad, bydd y rheoleiddiwr yn penderfynu a ddylid gosod y gofynion a nodwyd yn yr hysbysiad o fwriad. Os yw'r rheoleiddiwr yn penderfynu bwrw ymlaen, nodir hynny yn yr hysbysiad terfynol.

Bydd hysbysiad terfynol yn cynnwys ar ba sail y caiff ei gyflwyno, pa gamau sy'n angenrheidiol ac erbyn pryd y mae'n rhaid eu cymryd, hawliau apelio a chanlyniadau peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad.

Bydd hysbysiad terfynol ar gyfer cosb ariannol amrywiadwy yn cynnwys ar ba sail y rhoddir y gosb, y swm i'w dalu a sut i wneud taliad, erbyn pryd y mae'n rhaid talu, hawliau apelio a chanlyniadau peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad.

## **Cosb am beidio â chydymffurfio**

Os nad yw person yn cydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio neu ymgymeriad, caiff y rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad sy'n gosod cosb ariannol (cosb am beidio â chydymffurfio).

Y rheoleiddiwr fydd yn pennu swm y gosb. Bydd yn ganran o'r costau sy'n deillio o fodloni gweddill gofynion yr hysbysiad cydymffurfio neu ymgymeriad trydydd parti a chaiff fod yn 100%, os yw hynny'n briodol.

Os cydymffurfir â gofynion yr hysbysiad cydymffurfio neu ymgymeriad trydydd parti cyn yr amser a nodir ar gyfer talu'r gosb am beidio â chydymffurfio, ni fyddai'r gosb yn daladwy.

## **Hysbysiad stop**

Mae hysbysiad stop yn gwahardd person rhag parhau i gyflawni gweithgaredd a bennwyd yn yr hysbysiad, hyd nes bod y person wedi cymryd y camau angenrheidiol a bennwyd yn yr hysbysiad.

Gallai'r rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad stop os oes perygl sylweddol bod gweithgarwch person yn achosi (neu'n debygol o achosi) niwed i'r amgylchedd a bod y person dan sylw yn cyflawni trosedd o dan y rheoliadau neu'n debygol o gyflawni trosedd o dan y rheoliadau.

Bydd hysbysiad stop yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ar ba sail y cyflwynir yr hysbysiad, y camau y mae'n rhaid i'r person eu cymryd i gydymffurfio, hawliau apelio a chanlyniadau peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad.

Pan fo'r rheoleiddiwr yn fodlon bod y person wedi cymryd y camau a bennwyd mewn hysbysiad stop, bydd yn cyflwyno tystysgrif gwblhau. Ar ôl gwneud hynny, bydd yr hysbysiad stop yn peidio â chael effaith.

Os caiff hysbysiad stop ei dynnu yn ôl wedi hynny, neu fod apêl yn erbyn hysbysiad stop yn llwyddiannus neu nad oes tystysgrif gwblhau yn cael ei chyflwyno, bydd y rheoleiddiwr yn atebol i dalu costau digolledu i'r person am unrhyw ddiffyg a ddiodefwyd o ganlyniad i'r hysbysiad stop.

### **Achos troseddol**

Nod y drefn sancsiynau sifil a nodir uchod yw annog pobl i gydymffurfio â'r gwaharddiad ar ficrobelenni plastig. Os yw person yn methu â chydymffurfio â hysbysiad terfynol neu hysbysiad stop, caniateir dwyn achos troseddol yn ei erbyn.

### **Hysbysiad adennill costau gorfodi**

Caiff y rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson dalu costau a ysgwyddwyd fel rhan o ymchwiliad neu gostau gweinyddol. Gallai'r costau hynny gynnwys taliadau i arbenigwr am gyngor (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

Bydd yr hysbysiad adennill costau gorfodi yn pennu ar ba sail y cyflwynir yr hysbysiad, y swm i'w dalu, sut y mae'n rhaid talu ac erbyn pryd y mae'n rhaid talu, hawliau apelio a chanlyniadau peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad.

Credwn fod y dulliau gorfodi hyn a lefel y cosbau ariannol yn ddigonol i atal rhywun rhag peidio â chydymffurfio, a'u bod yn briodol ac yn rhesymol ar gyfer y gwaharddiad hwn. Bydd y drefn orfodi, gan gynnwys symiau'r cosbau, yn cael eu hadolygu'n gyson.

**Cwestiwn 3. A ydych chi'n cytuno bod y drefn orfodi hon a'r dull gweithredu yn rhesymol ac yn gymesur? Os nad ydych, pam?**

**Cwestiwn 4. A ydych chi'n cytuno â symiau'r cosbau ariannol? Os nad ydych, pam?**

## Apelau

Er mwyn sicrhau y caiff y drefn orfodi ei defnyddio'n deg ac yn unol ag egwyddorion gorfodi da, a bod yr awdurdod gorfodi yn atebol am ei benderfyniadau, bydd trefn apelio yn cael ei sefydlu.

Cynigir y bydd apelau yn cael eu cyflwyno gerbron Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (FTT). Siambr Gyffredinol Rheoleiddio'r FTT yw'r un fwyaf priodol gan ei bod yn ymdrin ag awdurdodaeth ym maes yr amgylchedd.

Os yw person yn anghytuno â chynnwys hysbysiad o fwriad, bydd ganddo 28 o ddiwrnodau i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau i'r rheoleiddiwr.

Os cyflwynir hysbysiad terfynol neu gosb ariannol ar ôl yr hysbysiad o fwriad, bydd yn rhaid cyflwyno unrhyw apêl i FTT yn ysgrifenedig.

Byddai apelau i FTT yn ymwneud â:

- Hysbysiad terfynol (cydymffurfio neu gosb ariannol amrywiadwy)
- Hysbysiad stop;
- Cosb am beidio â chydymffurfio.

Byddai'r drefn apelio hefyd yn caniatáu i apelau gael eu gwneud ar y sail a ganlyn:

- bod tystysgrif gwblhau heb ei chyflwyno mewn perthynas â hysbysiadau stop;
- bod tystysgrifau heb eu cyflwyno mewn perthynas ag ymgymeriad gorfodi;
- penderfyniad ynghylch digolledu; neu
- fod angen adennill costau gorfodi.

Bwriadwn i apelau ddilyn rheolau a gweithdrefnau Siambr Gyffredinol Rheoleiddio'r FTT. Mae rheolau a gweithdrefnau'r FTT<sup>2</sup> yn darparu cyfnod o 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y daw'r sancsiwn sifil i law er mwyn medru apelio yn ei erbyn. Y rheoleiddiwr, fel arfer, sy'n ysgwyddo'r baich profi mewn gwrandawriad – bydd yn rhaid iddo brofi i'r panel bod y penderfyniad a wnaeth yn un rhesymol.

Bydd y sail dros apelio yn cynnwys ymhlith eraill:

- penderfyniad ar sail ffaith wallus neu sy'n groes i'r gyfraith
- penderfyniad sy'n afresymol neu'n annheg
- bod swm y gosb yn afresymol
- bod y camau a nodwyd yn yr hysbysiad yn afresymol neu'n annheg
- nid yw'r person wedi cyflawni trosedd.

Caiff Tribiwnlys yr Haen Gyntaf dynnu gofyniad neu hysbysiad yn ôl, ei gadarnhau neu ei amrywio, a chyflwyno ei benderfyniad terfynol i'r corff gorfodi.

**Cwestiwn 5. A ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer y drefn apelio? Os nad ydych, pam?**

---

<sup>2</sup> <https://www.gov.uk/guidance/environmental-fines-or-notice-appeal-against-a-regulator>

## Camau nesaf

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried ymatebion ac yn eu cadw mewn cof wrth lunio'r Offeryn Statudol (y ddeddfwriaeth). Pan fydd yr holl ymatebion wedi'u hystyried, caiff Ymateb y Llywodraeth ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Yn unol â phrosesau deddfwriaethol, caiff yr Undeb Ewropeaidd a Sefydliad Masnach y Byd wybod am ein bwriad i lunio'r ddeddfwriaeth hon. Bydd yr hysbysiadau hyn yn rhoi cyfle i Aelod-wladwriaethau eraill a thrydydd gwledydd gyflwyno sylwadau ar ein cynigion.

Cyhoeddir yr Offeryn Statudol drafft am bythefnos a fydd yn sicrhau mwy o gyfle i gyflwyno sylwadau ar y ddeddfwriaeth ddrafft yn 2018. Fe'i cyhoeddir yn y London Gazette a'r Western Mail.

Ein bwriad yw llunio deddfwriaeth i ddwyn y gwaharddiad i rym ar 30 Mehefin. Gallai'r dyddiad hwn newid gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad, a'r prosesau hysbysu a'r prosesau deddfwriaethol gofynnol sydd wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori hon.



## **Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

### **Cwestiynau Cyffredinol**

1. Dewiswch ba un sy'n eich disgrifio chi orau: (ticiwch un yn unig)

- Gweithgynhyrchwr cynhyrchion cosmetig / gofal personol
- Manwerthwr cynhyrchion cosmetig / gofal personol
- Defnyddiwr cynhyrchion cosmetig / gofal personol
- Sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol
- Awdurdod/cyngor lleol
- Sefydliad cyfreithiol
- Arall

**Cwestiwn 1. A ydych chi'n cytuno â'n dealltwriaeth o'r effeithiau posibl ar fusnesau yng Nghymru? Os nad ydych, pam?**

**Cwestiwn 2. A ydych yn cytuno mai'r Adran Safonau Masnach yw'r corff mwyaf priodol i orfodi'r gwaharddiad ar ficrobelenni plastig? Os nad ydych, pam?**

**Cwestiwn 3. A ydych chi'n cytuno bod y drefn orfodi hon a'r dull gweithredu yn rhesymol ac yn gymesur? Os nad ydych, pam?**

**Cwestiwn 4. A ydych chi'n cytuno â symiau'r cosbau ariannol? Os nad ydych, pam?**

**Cwestiwn 5. A ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer y drefn apelio? Os nad ydych, pam?**

### **Cwestiynau pellach**

**Cwestiwn 6: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai gwahardd**

cynhyrchion i'w rinsio sy'n cynnwys microbelenni plastig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a, pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn eich barn chi, beth fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 7:** Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut yr ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

- cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 8:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.